

Llun 20^{fed} Mawrth 2017

Annwyl Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr a'r Tîm Cymorth

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Asesiad o Lesiant Lleol drafft a anfonwyd i'r swyddfa yn Chwefror 2017.

Y peth cyntaf yr hoffwn ei wneud yw mynegi'n glir fy mod yn gwerthfawrogi'r heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n eich llongyfarch ar eich ymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun i gyd ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant Pen-y-bont ar Ogwr a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol.

Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.

Ynglwm gweler dogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, ac sy'n eich annog i feddwl am yr hyn y dylech fod yn adeiladu arno yn y tymor byr, wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau mocsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae'n amlwg eich bod wedi gwneud ymdrech wirioneddol i **ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau** yn natblygiad eich asesiad, drwy eich gwaith ymgysylltu. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg, er gwaethaf eich ymdrechion gorau bod ymgysylltiad â'r cyhoedd wedi bod yn gyfyngedig iawn. Mae hwn yn rhywbeth y gobeithiaf y bydd yn gwella wrth i'r broses gynllunio llesiant fynd rhagddi ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan mai un o fwriadau allweddol y ddeddfwriaeth, ac un o fy amcanion innau, yw gweld cysylltiadau mwy arwyddocaol rhwng y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu â'r gwasanaethau sydd ar bobl eu hangen. Yr unig ffordd i ddod i ddeall hyn yw drwy wneud ymdrech i gyrraedd a gwrando ar bobl, a deall eu profiadau hwy o'r gwasanaethau. Buaswn yn eich annog i adeiladu ar eich gwaith hyd yn hyn i sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion i ymgyfrannu drwy ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Mae'r adrannau yn eich asesiad ar dueddiadau'r dyfodol o dan bob un o'ch pedair thema'n darparu peth sylfaen ar gyfer ystyried llesiant **hirdymor** yn eich ardal. Yn fy marn i mae yna botensial i chi roi mwy o ffocws ar yr hirdymor yn eich gwaith wrth i chi symud ymlaen, ac i archwilio pa rai o'ch cymunedau sy'n arbennig o agored i niwed yn sgil y tueddiadau hirdymor a nodir gennych.

Wrth i chi gychwyn ar eich cynllunio llesiant bydd yn bwysig i chi fanteisio ar y cyfle i archwilio ymhellach yr **integreiddio** rhwng polisi a heriau o dan eich pedair thema (llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol), a chreu mwy o gysylltiadau â'r saith nod llesiant. Bydd hyn yn hynod o bwysig wrth i chi feddwl am rolau cymharol eich gwahanol sefydliadau wrth i chi weithredu'r pum dull o weithio a gweithio tuag at **facsimieiddio eich cyfraniad** i'r nodau.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rwy'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer eich cynllunio llesiant. Mae hwn yn faes lle buaswn yn eich annog i dalu mwy o sylw i'r hyn a ddywedir wrthyf gan y data a'r dystiolaeth, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio**'n hanfodol i hyn i gyd – mae'n beth cadarnhaol eich bod wedi cydweithio'n rhanbarthol ar weithgareddau ymgysylltu ac yn awr mae gennych y cyfle i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.



Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, mae'n debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi gofod a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y gofyniad i chi ddefnyddio'r broses asesu hon ar gyfer eich cynllunio llesiant credaf y dylech roi ystyriaeth bellach i'r ystod ehangach o ddata a thystiolaeth y gellid eu defnyddio i drwytho eich dadansoddiad yn fwy trwyadl. Fel y gwyddoch fy rôl i yw rhoi cyngor ar sut y dylech gymryd camau i gwrdd â'ch cydamcanion a hoffwn weld manylion pellach o'r modd y byddwch yn gwella ac yn defnyddio eich asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Adnabuwyd yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu sy'n rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymgyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Aseiad o Lesiant Lleol draft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-Bont ar Ogwr

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr ar *Ymgynghoriad ar Aseiad o Lesiant Lleol drafft Pen-y-bont ar Ogwr 2017*. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Ymgynghoriad Drafft Aseiad Llesiant Lleol Pen-y-bont ar Ogwr: Ionawr 2017
- Trafodaeth rhwng y tîm prosiect ac aelodau tîm y BGC ar 8^{fed} Mawrth

Y bwriad yw i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i drwytho cyhoeddi'r aseiad yng ngwanwyn 2017 - lle mae hynny'n bosibl o gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli - ond mae'n bwysicach ei fod yn trwytho prosesau parhaus datblygiad eich aseiad a'ch cynllunio llesiant.

Mae'r aseiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau o gynhyrchiad a methodoleg ac ar y dadansoddiad o'r aseiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at aseiad lleol o lesiant, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

Tra'n bod yn deall bod yr Aseidiadau Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn y misoedd sy'n dod, mae'n bwysig eich bod yn nodi a gweithredu ar y sylwadau canlynol wrth i'r aseiad llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i drwytho cynllunio llesiant ar draws y BGC.

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

2. Nodau llesiant cenedlaethol

Rydym ar ddeall y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau ar gyfer adlewyrchu llesiant; yn achos Pen-y-bont ar Ogwr drwy ffocysu ar y pedair elfen – llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, gydag ystod eang o fesurau cenedlaethol a lleol a ffynonellau data o dan bob thema ac ar draws y tair ardal gymunedol. Mae'n bwysig bod yna gysylltiad clir rhwng y data, ei ddehongliad a'n dealltwriaeth o bob agwedd ar ein llesiant yn ein cymunedau.

Tra'n bod yn cydnabod o'n sgwrs dros y ffôn y dull a'r rhesymeg dros ymgymryd â'r asesiad yn y modd arbennig hwn, mae angen egluro hyn ymhellach yn y brif ddogfen. Gellid gwella'r asesiad drwy roi eglurhad cliriach am sut a pham y dewiswyd y myrdd o wahanol fesurau a 'materion'. Pam mae'r mesurau hyn yn arbennig o bwysig i Ben-y-bont ar Ogwr a pham na ddefnyddiwyd mesurau llesiant eraill posibl? Yn aml caniateir i'r data sefyll ar ei ben ei hunan heb lawer o gyd-destun.

Mae'n bwysig nodi mai cyfyngedig yw'r eglurhad drwy'r holl asesiad am *beth* a ddywedir wrthym gan y mesur neu'r ffaith am lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae *dehongli* cyfyngedig o'r data'n rhywbeth sydd angen mynd i'r afael ag ef drwy'r holl asesiad a chaiff ei amlygu drwy'r holl adborth hwn. Heb y dehongli hwn mae'n anodd iawn deall sut mae'r materion hyn yn cyfrannu tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol.

Cadarnhaol yw gweld ym Mhennod 3 adran sy'n ceisio nodi cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol. Yma rhestrir ffeithiau perthnasol, ymyriadau ac arsylliadau ar gyd-destun Pen-y-bont ar Ogwr yn erbyn y nodau cenedlaethol. Byddai'n ddefnyddiol i ddeall beth mae'r bennod hon yn ceisio'i gyflawni? Beth mae'n ei ddangos? A yw'n cael ei defnyddio fel dull o ddehongli'r data yn yr asesiad?

Tra cyfeirir at y saith nod llesiant yn y cyflwyniad, byddai'n ddefnyddiol petai yna gyfeiriad atynt o dan y themâu neu o fewn y dystiolaeth neu'r dadansoddiad o fewn pob pennod. I'r BGC fedru deall sut y gall facsimeiddio'i gyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol, credwn y bydd angen deall a chyfleu yn glir y berthynas rhwng y gwahanol adrannau a'r nodau cenedlaethol.

Mae'n braf clywed y bydd y gwaith blaenoriaethu a gynllunnir gyda phartneriaid yn y misoedd sy'n dod yn rhoi mwy o ffocws ar y mater hwn ac edrychwn ymlaen at weld dystiolaeth o'r berthynas hon drwy'r holl broses gynllunio llesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn. Roedd ein sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC yn ddefnyddiol ar gyfer deall anawsterau casglu data ar lefel lleol iawn. Cydnabyddir y bwch yn y ddogfen ond nid oes unrhyw arwydd o'r modd y byddir yn mynd i'r afael â hyn.

Deallwn bod argaeledd data mewn llawer achos wedi cael ei ddefnyddio fel y ffrâm ar gyfer yr asesiad yn hytrach na'r cymunedau a'r lleoedd o fewn Pen-y-bont ar Ogwr ei hunan. Mae hyn wedi arwain at set o ddata eang heb gyd-destun lleol na dehongliad. Credwn y dylai asesiad llesiant ddarparu dealltwriaeth o lesiant sy'n fwy lleol (llai homogenaidd) nad yw'n cael ei arwain i'r fath raddau gan 'ddata', a byddwn yn edrych am dystiolaeth o hyn wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo.

Byddai'r asesiad yn wir ar ei ennill petai mwy o ffocws yn cael ei roi ar gymunedau unigol ar draws yr ardal. Dealltwriaeth gyfyngedig o lesiant mewn gwahanol ardaloedd a lleoedd a geir yn yr ymagwedd bresennol, ac o'r gwahaniaethau o fewn ardal neu rhwng ardaloedd, anghydraddoldebau neu faterion lleol sy'n arbennig o ddifrifol. Mae'n amlwg y bydd yna wahaniaethau mewn asedau a heriau llesiant yn nyffrynnoedd Llynfi, Garw ac Ogwr ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl. Mae'r asesiad yn nodi'r tair Ardal - Gorllewin, Dwyrain a Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag nid oes unrhyw gyfeiriad at yr ardaloedd hyn yn y ddogfen – Beth yw eu perthnasedd i'r asesiad? Sut maent i fod i gael eu defnyddio i wella'n dealltwriaeth o wahaniaethau gofodol mewn llesiant?

Gellir gwella'r asesiad ymhellach drwy gynnwys data ar ynni critigol, dŵr, trafndiaeth a seilwaith diogelu'r arfordir. Golyga hyn, nid yn unig ddisgrifiad, ond ddehongliad o heriau allweddol a chyfaddawdau (gweler sylwadau ymhellach ymlaen ym mhwynt 6 isod). Mae'r math hon o wybodaeth o berthnasedd allweddol i'r BGC ar gyfer darparu gwasanaethau a llesiant cymunedol yn y dyfodol.

Mae hon yn agwedd o'r asesiad y buasem yn disgwyl ei gweld yn gwella. Dylai'r ddogfen asesiad derfynol ddarparu peth eglurder ar y modd y bydd cymunedau arbennig ar draws yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn y broses cynllunio llesiant yn y tymor byr a'r tymor canolig.

4. Cynnwys data – anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r anghenion hyn yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau arbennig o bobl.

Blaenoriaeth i fy Swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod yn y lle cyntaf yn ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau gwirioneddol pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni gwasanaethau. Rydym yn cydnabod o'r sgwrs dros y ffôn yr ymagwedd eang o ymgymryd â'r asesiad hwn ochr yn ochr â'r Asesiad Anghenion Poblogaeth, a bod ymgysylltu ar draws y naw grŵp targed wedi trwytho'r ddogfen derfynol.

Yn gyffredinol mae angen mwy o ddehongliad o arwyddocâd y data i wasanaethau cyhoeddus ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae hwn yn faes lle byddem yn disgwyl i'r asesiad wella. Darlun aneglur sydd gennym o ddigonolrwydd gwasanaethau cyhoeddus presennol, ble mae'r bylchau'n bodoli a'u goblygiadau i lesiant yn awr ac yn y dyfodol. Pa bwysau a roddir gan y sefyllfa bresennol ar wasanaethau cymdeithasol? Pa wasanaethau sy'n arbennig o agored i niwed oherwydd daearyddiaeth yr ardal?

Un enghraifft yw'r pwyslais clir ar rôl yr amgylchedd naturiol ar lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr. A yw'n cael ei reoli'n ddigonol? Oes angen gweithredu ar y cyd? Sut y gellir defnyddio'r ased hwn gan y sector cyhoeddus i gyflawni canlyniadau llesiant ar draws y pedair thema? Un arall yw'r defnydd o raddfeydd ailgylchu – beth ddywed hyn wrthym am gynhyrchu gwastraff ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

A yw rheoli gwastraff ar draws Pen-y-bont ar Ogwr yn broblem neu a yw o dan bwysau yn y tymor byr a'r tymor canolig? Darperir tocynnau teithio rhatach i ddinasyddion hŷn, ond a yw hyn yn mynd i'r afael ag unigedd a mynediad i wasanaethau?

Os ydyw'r BGC i ddeall bylchau a ble mae gweithredu ar y cyd yn ofynnol, bydd arno angen dealltwriaeth ehangach am yr angen i addasu gwasanaethau cyhoeddus, eu gwella a'u hail-fframio i fynd i'r afael â llesiant ar draws Pen-y-bont ar Ogwr ac o fewn ei chymunedau.

Tra caiff prosiectau ac 'ymyriadau' eu rhestri drwy'r holl asesiad, gallai ddatgan yn fwy clir pa wasanaethau ychwanegol penodol sy'n ofynnol, ar ba raddfa a sut mae hyn yn gwahaniaethu ar draws cymunedau.

Tra'n bod yn deall y caiff hyn sylw yn y dadansoddiad ymateb a'r datblygiad cynllun, mae naratif y brif ddogfen yn gofyn am gyd-destun mwy strategol a llawer mwy o ddehongliad o'r heriau i gymunedau a gwasanaethau cyhoeddus.

5. Dadansoddiad Meintiol ac Ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o gydbwysu data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth orffenedig o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol a dulliau dadansoddi wrth asesu'n rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Fel y trafodwyd mewn pwyntiau blaenorol, yn gyffredinol mae yna ystod eang o ddata meintiol wedi ei restru o dan y gwahanol themâu, gyda diffyg cyd-destun strategol neu ddehongliad i'n galluogi i ddeall arwyddocâd y data. Yn aml gwneir cymariaethau heb ddealltwriaeth o paham mae hyn yn bwysig. Mae data ansoddol o'r arolwg yn ein helpu i ddarlunio'r hyn sy'n bwysig i bobl a chaiff ei gyflwyno'n dda mewn mapiau geiriau. Er gwaethaf yr ymateb cyfyngedig (gweler pwyntiau nes ymlaen) mae data'r arolwg hwn wedi ei ddefnyddio'n dda. Dylid bod wedi cyfeirio at hyn yn gynt yn y ddogfen i roi gwybod i'r darllenwyr bod arolwg wedi ei gynnal – cyn i ddata ohono ymddangos yn y testun. Cadarnhaol yw gweld bod y thema Amgylchedd yn darparu dadansoddiad cryfach a mwy cynnil o'r sefyllfa bresennol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda data'n cefnogi'r naratif ac yn dangos pwyntiau a wnaed yn y sylwebaeth. Dylai pob adran geisio ennill y cytbwysedd hwn o ddehongli ansoddol a defnyddio data i gefnogi dadansoddiad.

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi adborth manylach ar yr asesiad o dan bob thema:

Economi: yn ychwanegol at y sylwadau cyffredinol uchod am ddehongli ac arwyddocâd mae ar yr adran hon angen mwy o gyd-destun strategol. Mae'r cwestiynau canlynol yn rhoi rhyw syniad o'r math o ddehongliad a chyd-destun strategol sydd eu hangen i drwytho'r broses cynllunio llesiant. O gadw mewn golwg gymariaethau cenedlaethol a natur ei phrif gyflogwyr pa mor gadarn neu fregus yw economi lleol Pen-y-bont ar Ogwr? Peth cadarnhaol yw bod dibyniaeth fawr ar weinyddu cyhoeddus ac iechyd wedi ei adnabod, ond beth a olyga hyn i lesiant economaidd a rôl y BGC? Mae yna fanciau bwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr – beth a ddywed hyn wrthym am lesiant economaidd mewn rhannau arbennig o'r ardal? Beth yw arwyddocâd y dangosyddion cenedlaethol ar lesiant economaidd h.y. beth a ddywedant wrthym am Ben-y-bont ar Ogwr? Gellid gwella'r adran hon drwy ddatgan manteision posibl Dinas-ranbarth Caerdydd ac

Abertawe i Ben-y-bont ar Ogwr – beth yn union yw natur y manteision posibl i'r economi lleol a darpariaeth gwasanaethau? A yw tai fforddiadwy neu gyrhaeddiad addysgol yn broblem ym Mhen-y-bont ar Ogwr a sut mae hyn yn effeithio ar yr economi? Oes yna wahaniaethau gofodol mewn economi a llesiant yn y tair ardal o'r dre? Tra'n bod yn deall bod Brexit yn dwyn ansicrwydd mawr, mae goblygiadau posibl Brexit, er enghraifft ar gyllid adfywio ardaloedd gwledig, ac ar seilwaith, yn fater allweddol a fydd yn cael effaith ar Ben-y-bont ar Ogwr ar draws pob thema llesiant. Pa rannau o'r economi sy'n debygol o ddirodd os na fydd ymrwymadau ariannu cyfredol yn cael eu bodloni?

Cymdeithasol: mae'r adran hon yn darparu ystod eang o fesurau ag angen eu datblygu'n sylwebaeth a dealltwriaeth llawer mwy eang o arwyddocâd y materion hyn i lesiant cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Eto, mae angen archwilio'r materion canlynol i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio llesiant. Mae yna ddata da ar ddisgwyliad oes ond beth sy'n achosi anghydraddoldebau ar draws Pen-y-bont ar Ogwr rhwng gwahanol gymunedau? Mae'n glir bod yna dystiolaeth dda ar faterion iechyd, gyda naratif cyffredinol clir ar paham mae'r materion hyn yn bwysig, ond pa faint o broblem yw'r materion hyn sy'n ymwneud â ffyrdd o fyw afiach i lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr – a yw ymyriadau presennol yn ddigonol neu a yw'n ofynnol i gael rhywbeth gwahanol oddi wrth y BGC? Oes yna wahaniaethau gofodol sy'n arwyddocaol i ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol. Mae yna ddata da ar y mynediad i wasanaethau ond eto, a oes yna wahaniaethau gofodol sydd ag angen mynd i'r afael â hwynt? A yw seilwaith (rhwydwaith) trafniadaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn gydnherth a chyllidawdy dros y tymor canolig ac a yw trafniadaeth gyhoeddus yn ddigonol? Mae gordewdra ymhlith plant yn gostwng, ond a yw hyn yn dal yn broblem ac a yw ymyriadau'r sector cyhoeddus yn ddigonol ar gyfer mynd i'r afael â hyn? Dylid hefyd ddarparu mwy o sylwebaeth ar asedau cymunedol a *chymdeithasol* fel rhan o sylwebaeth ehangach ar lesiant cymdeithasol yn yr ardal e.e. cyfalaf cymdeithasol a rhwydweithiau; rôl yr economi, nad yw'n ymwneud ag arian, mewn llesiant cymdeithasol a lefelau gofal di-dâl.

Amgylchedd: fel y crybwyllwyd uchod mae'r adran hon yn darparu ymagwedd fwy cytbwys a hygyrch tuag at asesu llesiant na rhai eraill. Defnyddir data lleol yn dda i ddeall asedau amgylcheddol Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, mae gormod o ddibyniaeth mewn rhai achosion ar ddata mesuradwy, heb egluro a yw'r 'mater' hyn yn broblem, a yw'n cael ei reoli'n ddigonol, neu sut mae'n effeithio ar lesiant. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut y gallai mwy o ddehongli wneud y goblygiadau i lesiant neu reolaeth yn fwy clir.

Mae llifogydd yn amlwg yn broblem ar draws yr holl ardal – a yw rheolaeth arfordirol, llifogydd dŵr wyneb yn ddigonol ar draws yr ardal o gadw mewn golwg fuddsoddiad cyfredol? Mae'n braf

clywed mewn adrannau diweddarach bod gennych gynllun rheoli traethlinau – ond a yw hyn yn ddigon? Ai dim ond Maesteg ddylai beri pryder i ni? Beth yw effaith ansawdd dŵr gwael ar lesiant? Pa mor arwyddocaol yw effaith ansawdd aer ar iechyd? Oes yna botensial ar gyfer gwneud mwy o ynni adnewyddol, a yw seilwaith ynni'n gydnerth? Ai peth cadarnhaol yw gweld mapiau'n dangos mynediad i fannau agored gwyrdd ac amrywiaeth yn y tirlun ac a yw'n gadarnhaol bod yr adran hon yn cydnabod materion ehangach.

Mae'r wybodaeth ar safleoedd dynodedig, priddoedd, amaethyddiaeth a materion arfordirol yn dda – ond beth yw cyflwr amaethyddiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'i rôl yn yr economi lleol a chydlynid cymunedol? A yw tir wedi'i halogi a thirlenwi'n broblem? Yn aml iawn caiff y datganiad bod ymyriad wedi ei sefydlu ei or-bwysleisio – ac felly a yw'r statudau a'r cyfarwyddbau a rôl Cyfoeth Naturiol Cymru'n golygu fod popeth yn iawn? Mae ar gymariaethau angen mwy o eglurhad e.e. "*Mae nifer yr achosion o gynhyrchu ynni adnewyddol yn unol â chyfartaledd Cymru?*" Os felly – beth mae'r gymhariaeth hon yn ei ddweud wrthym?

Diwylliant - Cadarnhaol yw gweld, o'r arolwg arlein, bod yna beth mewnwelediad i lesiant diwylliannol, ac mae'r adrannau ar yr iaith Gymraeg a diwylliant yn helpu'r darllynydd i ddeall ei rôl ar draws yr ardal. Fodd bynnag, mae'r adran hon yn cael ei harwain gan ddata, gyda ffeithiau o ddata cyfrifiad ONS ac Arolwg Cenedlaethol Cymru'n rhoi nifer amrywiol o ffeithiau a mesurau gydag ychydig iawn o ddehongli am eu harwyddocâd i lesiant diwylliannol. Mae'n glir bod Ymweliadau ag Amgueddfeydd a Safleoedd o Arwyddocâd Archaeolegol, cyfleusterau chwaraeon a bodolaeth 19 o ganolfannau cymunedol yn bwysig – ond nid oes naratif dealladwy na dealltwriaeth o ddiwylliant yr ardaloedd yn yr adran hon, neu sut y mae hyn yn amlygu ei hun ym mywydau pobl o ddydd i ddydd. O bwysigrwydd arbennig yw bod yr adrannau ar 'gymuned' a thueddiadau diwylliannol y dyfodol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn hynod o gyfyngedig yn eu cwmpas, yn ffocysu ar grefydd, yr iaith Gymraeg a nifer y rhai sy'n mynd allan i bleidleisio. Ychydig iawn sydd yn y ddogfen am *gyfalaf* diwylliannol Pen-y-bont ar Ogwr ac mae hyn yn rhywbeth y dylid mynd i'r afael ag ef wrth weithio ar yr asesiad yn y dyfodol. Gallai'r adran hon fod yn fwy disgrifiadol o fywiogrwydd diwylliant Pen-y-bont ar Ogwr ym maes celfyddyd, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diodydd lleol, digwyddiadau, rhwydweithiau gwybodaeth a natur ei gwaith gwirfoddol. Beth yw effaith diwylliannol cyfryngau cymdeithasol yn awr ac yn y dyfodol ar gymunedau Pen-y-bont ar Ogwr? Sut mae canol trefi'n cyfrannu at lesiant diwylliannol ar draws yr ardaloedd?

Mae'n amlwg bod yna rai materion sylfaenol sydd ag angen mynd i'r afael â hwynt os yw'r asesiad i ddarparu darlun cynnil a chlir o lesiant drwy ei ddefnydd o ddata meintiol ac ansoddol. Mae ein hawgrymiadau ni uchod yn dangos y byddai'r asesiad ar ei ennill o gael dadansoddiad mwy deongliadol

gyda llai o arweiniad gan set o ddata, ac a fydd yn eich helpu i ddeall y materion llesiant sy'n hollbwysig i'ch ardal.

6. Heriau allweddol

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae'r asesiad yn darparu data ar ystod o arwyddion sy'n dangos agweddau allweddol llesiant, ond fel arfer mae angen eu cryfhau drwy fwy o ddehongli i adnabod natur a graddfa'r heriau allweddol, cyfaddawdu, tensiynau a sut maent yn effeithio ar Ben-y-bont ar Ogwr. Mae arnom angen, ar draws pob thema, ddealltwriaeth gliriach o *arwyddocâd* y materion hyn i lesiant ac mae hwn yn faes lle byddem yn disgwyl i'r asesiad wella.

Deallwn fod nifer o *gryfderau* a *heriau* wedi eu rhestru ar ddiwedd pob adran thema – mae hwn yn gychwyn defnyddiol a gallech adeiladu ar y rhain gyda mwy o eglurhad ohonynt a beth yw eu bwriad. Mewn rhai achosion ymddengys nad oes perthynas rhyngddynt â'r testun blaenorol (e.e. cryfder gwirfoddoli yn yr Adran ar *Ddiwylliant*). Mae'r rhain yn gymysgedd o heriau, arsylwadau a ffeithiau, ac mae angen mwy o eglurhad manwl am y rheswm dros eu dewis a'u goblygiadau i lesiant a'u pwysigrwydd i'r BGC. Sut y cânt eu defnyddio – sut maent yn berthnasol i'w gilydd?

Mae'n amlwg bod angen ystyried, hwyrach, nifer o heriau strategol sy'n darparu cefndir i'ch asesiad o fewn sylwebaeth ehangach ar gychwyn y ddogfen. Mae'r heriau hyn yn gyffredin i bob ardal yng Nghymru, ond ychydig o broffil sydd ganddynt mewn llawer rhan o'r ddogfen: Sut mae'r materion canlynol yn effeithio ar lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr? Anghydraddoldebau mewn iechyd a safon byw; cydnerthedd seilwaith; addasu i'r lleihad mewn poblogaeth; adnoddau cyfyngedig ar gyfer gofal cymdeithasol; dim digon o dai; pobl yn byw mewn tldi; diwygio lles; effaith yr hinsawdd; caledi; disbyddiad adnoddau naturiol. Gallai data a gwybodaeth bresennol eich helpu i osod gwaith y BGC mewn cyd-destun eang strategol. Tra telir sylw i'r rhain yn awr ac yn y man o fewn y testun mae arnom angen dealltwriaeth ehangach fwy integredig o'r modd y maent yn cydberthyn ac o'r modd y gallent effeithio ar Ben-y-bont ar Ogwr dros y tymor canolig a'r hirdymor.

Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn bod gwaith eisoes ar y gweill i gychwyn dehongli'r data sydd wedi ei gasglu i ddeall yr heriau allweddol i'r ardal. Byddwn yn awyddus i weld sut y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn i adnabod yr heriau, a'u cydberthynas, ond hefyd i archwilio sut y gallech ymateb i'r rhain fel BGC.

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn ac o Atodiad 2, sy'n amlinellu eich methodoleg ymgysylltu, eich bod yn amlwg wedi gwneud ymdrech i ymgysylltu â chymunedau a deall eu persbectifau ar lesiant. Deallwn hefyd yr anawsterau arbennig a grewyd gan yr amserlen, a natur unigryw eich cydweithio gyda BGC Castell Nedd Port Talbot a BGC Abertawe i alinio gwaith ar yr Aseiad Anghenion Poblogaeth ac Aseiad Llesiant.

Mae'n glir bod eich ymateb a lefel eich ymgysylltiad â'r gymuned, er gwaethaf eich ymdrechion gorau wedi bod yn gyfyngedig. Mae hwn yn rhywbeth yr ydym yn gobeithio bydd yn gwella'n fawr wrth i'r broses gynllunio fynd rhagddi ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'n hollbwysig bod y broses barhaus a amlinellir gan y ddeddfwriaeth yn cynnwys ymgyfraniad cymunedau ar draws yr ardal, a buasem yn annog y BGC i roi ystyriaeth ddifrifol i sut y gellir gwneud hyn mewn dull mwy effeithiol rhwng nawr a chynhyrchiad y Cynllun terfynol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gadw mewn golwg yr angen i adlewyrchu cymunedau unigol ar draws yr ardal (fel yr amlinellir ym mhwynt 3 uchod).

Mae'n braf clywed i ba raddau mae'r asesiad hwn wedi gweithredu fel catalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC, a bod gwaith wedi parhau ym mis Chwefrol i archwilio'r setiau data gan ddefnyddio dull o weithio sy'n ymgorffori'r nodau llesiant yn ogystal â'r pum dull o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dylid amlygu'r gweithgaredd hwn a'r canfyddiadau allweddol o'r sesiynau, os ydyw hyn yn ymarferol, cyn y fersiwn terfynol. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r asesiad petai lefel yr ymgysylltiad â'r sector preifat yn cael ei amlygu yn y broses gan ei bod yn aneglur ar hyn o bryd ble mae eu persbectifau wedi cael eu bwyd i mewn.

8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant

amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws polisi traddodiadol a seilos sefydliadol, i ddehongli beth a olyga hyn i lesiant yn yr ardal.

Mae'n beth cadarnhaol eich bod wedi crybwyll pwysigrwydd cydberthynas yn y Rhagair, ond prin iawn yw'r dystiolaeth bod data o bob adran (ac o fewn pob adran) wedi cael ei ystyried ochr yn ochr â data'r lleill, neu fod y gydberthynas wedi cael ei hystyried. Mae angen archwilio'r gydberthynas hon fel rhan o ymdrech ehangach i ddehongli'r data a gasglwyd hyd yn hyn.

Mae hwn yn faes i chi roi mwy o ystyriaeth iddo wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi, ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Mae lle i fwy o integreiddio a mwy o archwiliad o'r berthynas polisi/heriau rhwng pob thema – er enghraifft yr economi ac asedau economaidd Pen-y-Bont ar Ogwr, rhwng iechyd, tai ac incwm, rhwng busnes a thrafnidiaeth a photensial y ddau brosiect Dinas-ranbarth. Nid yw'r gydberthynas hon ar hyn o bryd yn cael ei hadlewyrchu yn yr asesiad a dylid tynnu sylw ati fel rhan o ddadansoddiad a naratif mwy deongliadol ac ansoddol fel y trafodwyd uchod.

Deallwn o'r sgwrs dros y ffôn bod hyn wedi bod yn rhan o'ch ymagwedd tuag at ymgysylltu pellach ar yr asesiad yn ystod y misoedd diwethaf. Bydd diddordeb gennym i weld tystiolaeth o hyn yn y dogfennau asesu terfynol a'r cynllun.

Dylai integreiddio ar draws themâu llesiant fod yn fater pwysig i'r BGC i'w ystyried wrth iddo ddatblygu ei Gynllun Llesiant, nid y lleiaf er mwyn deall y gall y bydd yna angen i adnoddau a'r sector cyhoeddus addasu i fynd i'r afael â materion sy'n torri ar draws seilos polisi traddodiadol.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig *a'r hirdymor* drwy gydol yr asesiad a'r broses Gynllunio. Mae gennym ddiddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Cadarnhaol yw gweld yr adrannau ar *Dueddiadau'r Dyfodol* o fewn pob thema sy'n rhoi i ni ddisgrifiad byr o 'faterion' y dyfodol sy'n berthnasol i'r thema arbennig. Fodd bynnag byddai'r asesiad ar ei ennill o gael mwy o ddadansoddiad o'r modd y gallai'r tueddiadau hyn ddylanwadu ar lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dylid datblygu'r ymagwedd hon ymhellach ar gyfer yr asesiad terfynol gyda pheth

dadansoddiad ansoddol, deongliadol i wneud yn glir i'r darllenwydd beth sy'n bwysig ynglŷn â'r materion hyn yn arbennig i Ben-y-bont ar Ogwr.

Er enghraifft, a yw ynni, dŵr, trafndiaeth, tai, ansawdd pridd a bioamrywiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddigon cydnerth i ddarparu'r sylfeini ar gyfer llesiant ei chymunedau a'i heconomi? Oes yna faterion arwyddocaol i'w rheoli dros yr hirdymor (e.e. buddsoddi mewn ffyrdd? Oes yna faterion lleol i'w rheoli dros yr hirdymor (llifogydd arfordirol)? Beth yw'r heriau yn yr hirdymor ar gyfer mynd i'r afael â thlodi amlgenedliadol mewn rhannau o Ben-y-bont ar Ogwr?

Deallwn hefyd o'n sgwrs dros y ffôn bod yna gyfle i ddatblygu'r maes gwaith hwn drwy eich ymgysylltiad parhaus ar yr asesiad. Eto, bydd gennym ddi-ddordeb i weld tystiolaeth o hyn yn y dogfennau asesiad terfynol a'r cynllun.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd, Iechyd, Defnyddio Tir a Seilwaith a Newid Cymdeithasol. Bydd angen i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yng Nghaerffili yn yr asesiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dealltwriaeth a dadansoddiad manylach o faterion allweddol rhanbarthol a materion trawsffiniol sy'n effeithio ar Ben-y-bont ar Ogwr yn fanteisiol i drwytho proses y cynllun asesu. Gallai'r asesiad roi eglurhad cliriach o'r rôl yr ardal o fewn y rhanbarth. A yw'r cydweithio gyda Chastell Nedd Port Talbot yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd i ddatblygu eich dealltwriaeth o'r cyd-destun rhanbarthol hwn?

Er bod cyfeiriad at brosiectau Dinas-ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe nid yw'n glir beth allai goblygiadau'r buddsoddiadau pwysig hirdymor hyn fod i *bob* agwedd ar lesiant cymunedol ar draws Pen-y-bont ar Ogwr. Hyd yn oed os ydyw'r effeithiau penodol yn ansicr ar hyn o bryd, mae'n amlwg y byddant yn dylanwadu ar gydlyniant, mynediad i wasanaethau, cydraddoldeb trafndiaeth, cydnerthedd ac yn y blaen. Cydnabuwyd hyn yn ystod ein sgwrs gyda chi dros y ffôn.

Gellid hefyd fod wedi darparu mwy o fewnwelediad ar arwyddocâd patrymau cymudo i lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ar faterion hollbwysig i seilwaith trafniadaeth a natur y gydberthynas rhwng Pen-y-bont ar Ogwr ag awdurdodau cyfagos a phartneriaid rhanbarthol eraill. Bydd hefyd yn bwysig i FGCau ystyried casgliadau asesiadau lleol o lesiant mewn ardaloedd cyfagos, wrth iddynt barhau ddatblygu'r cynllun.

Mae'r ffocws rhanbarthol hwn yn rhywbeth y gallem ddisgwyl ei weld yn cael sylw yn sylwadau'r asesiad yn y dyfodol ar gyfer trwytho cynllunio llesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr, efallai'n ffurfio rhan o'r cyd-destun ehangach ar gyfer asesiad fel yr awgrymwyd yn adrannau blaenorol yr adborth hwn.

11. Ansawdd data a bylchau mewn data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen.

Mae hwn yn faes lle byddem yn disgwyl i'r asesiad wella. Byddai pob un o'r adrannau thema ar eu hennill o gael crynodeb o fylchau data o wahanol agweddau ar y gwaith i ddeall beth allai fod ei angen yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor – h.y. beth sydd ar goll sydd o bwys yn awr i drwytho datblygu Cynllun, beth fyddai'n dda i'w adeiladu dros y tymor canolig a beth sydd ei angen yn yr hirdymor ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil data a dulliau rheoli i mewn i'w busnes a'u cynllunio corfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi arwydd i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru o anghenion y BGC.

12. Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i *facsimeddio*'u cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n amlwg bod yna rai elfennau yn eich ymagwedd sy'n dangos sut mae'r pum dull o weithio wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses datblygu asesiad:

Hirdymor – drwy'r Adran Tueddiadau'r Dyfodol

Ymgyfraniad – drwy waith ymgynghori yr ymgwymerwyd ag ef a gwaith sydd ar y gweill
Cydweithio – drwy weithio gyda phartneriaid statudol ar yr asesiad

Tra caiff *Atal* ei grybwyll yng nghyd-destun ymyrraeth blynnyddoedd cynnar a'r amgylchedd, byddai'r Asesiad ar ei ennill petai'n disgrifio sut mae'r agenda ataliol yn hollbwysig i gynllunio llesiant a darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Yn gyffredinol ychydig o dystiolaeth a geir sy'n dangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi ei defnyddio fel modd o weithio yn yr asesiad hwn (gweler sylwadau ar *Integreiddio* o dan bwynt 9). Mae hwn yn faes lle buasem yn disgwyl gweld tystiolaeth oddi wrth FGCau o'r modd y caiff yr egwyddor ei defnyddio i drwytho a gwella cynllunio llesiant, yn cynnwys eu dewis o amcanion llesiant yn y cynllun llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y ddogfen yn eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Fodd bynnag, mae hwn yn faes sydd ag angen meddwl mwy amdano. Byddai'r asesiad ar ei ennill o gael mwy o eglurder ar: y camau nesaf; sut fedr unigolion a sefydliadau barhau i ymgyfrannu; yr amserlen a beth mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud.

Mae'n bwysig bod yr eglurhad hwn yn cyfleu sut y bydd y deunydd a gasglwyd yn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i lunio amcanion ar gyfer y BGC. Sut fydd yr wybodaeth yn yr asesiad yn cael ei defnyddio i ddatblygu blaenoriaethau – ai cychwyn y broses hon yw'r Cryfderau a'r Heriau a restrir o dan bob thema?

Gellid defnyddio deunydd o'r Cyflwyniad ar dudalen 9 o'r asesiad i roi'r cyd-destun ar gychwyn y ddogfen a chynnwys eglurhad cliriach o bwrpas yr asesiad ac amlinelliad o'r modd y bydd y broses yn mynd rhagddi.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi adnabod nifer o feysydd lle gallai'r Asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi a hefyd dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC sydd wedi ymgyfrannu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn

oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod hon wedi bod yn dasg enfawr dros gyfnod cymharol fyr, a bod partneriaid wedi gwneud ymdrech fawr i gynhyrchu'r asesiad drafft. Mae'n amlwg bod yr asesiad yn dal yn waith sydd ar y gweill, ond credwn fod hwn ar hyn o bryd yn dibynnu gormod ar ddata'n pennu'r 'ffrâm' ar gyfer llesiant ac y dylai Pen-y-bont ar Ogwr ystyried o ddifrif fabwysiadu ymagwedd strategol ehangach tuag at yr asesiad gyda'r data'n trwytho disgrifiad mwy ansoddol o'r heriau allweddol a chryfderau'r ardal. Os ydyw'r asesiad wedi ei fwriadu i drwytho'r broses o wneud penderfyniadau mewn dull strategol ar draws y bartneriaeth a'ch galluogi i ddeall ble mae angen gweithredu ar y cyd, yna mae'n amlwg bod rhagor o waith i'w wneud i ddehongli'r data o dan bob un o'r themâu hyn.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol i wella'r asesiad, materion sy'n berthnasol i Ben-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol ac i'r ardaloedd cymunedol unigol:

cyd-destun strategol – pennu cyd-destun strategol ehangach ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y pedair thema a'r mesurau cysylltiedig

nodau llesiant – dealltwriaeth eglurach o'r berthynas rhwng y materion a nodwyd a'r saith nod llesiant cenedlaethol

ardal a lle - gwell dealltwriaeth o lesiant o fewn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, ei threfi, ardaloedd gwledig ac ardaloedd arfordirol i adlewyrchu'n well y materion allweddol ar gyfer llesiant mewn gwahanol leoliadau

Integreiddio ar draws themâu – mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd a'r pedair thema a goblygiadau hyn i lesiant

dehongliad o ddata ac arwyddocâd – mwy o eglurhad am y modd y mae materion a nodwyd drwy'r data'n effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau, a'u harwyddocâd ar draws Pen-y-bont ar Ogwr

asedau cymdeithasol a diwylliannol – dealltwriaeth ehangach o asedau cymdeithasol a diwylliannol a'u rôl mewn llesiant ar draws Pen-y-bont ar Ogwr.

cyd-destun rhanbarthol – dealltwriaeth ehangach o le Pen-y-bont ar Ogwr yn y rhanbarth a'r gydberthynas ag ardaloedd a chymunedau cymdogol, yn cynnwys effaith posibl y prosiect Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Chaerdydd

tueddiadau'r dyfodol – rhoi mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol, ar gymunedau arbennig a dinasyddion y dyfodol

Symud ymlaen - rhoi disgrifiad cliriach o'r modd y bwriedir defnyddio'r asesiad a'r data, sut y bydd y bylchau'n cael eu rheoli a sut fydd cynllunio llesiant yn symud yn ei flaen

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr asesiad.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Asesiad Llesiant terfynol Pen-y-bont ar Ogwr a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.